


## RESULTS OF ASSESSMENTS CANLYNIADAU ASESIADAU

Environmental Assessments have been carried out to identify and assess the likely or potential environmental effects of this proposed development.

This is an important process, which is developed and assessed in close consultation with relevant statutory bodies and technical consultees to ensure all potential effects are identified and that they are removed, or reduced to an acceptable level through scheme design.

Mae Asesiadau Amgylcheddol wedi'u cynnal i nodi ac asesu effeithiau tebygol neu bosibl ar yr amgylchedd yn deillio o'r datblygiad arfaethedig hwn.

Mae hon yn broses bwysig sy'n cael ei datblygu a'i hasesu gan ymgynghori'n fanwl â chyrrff statudol ac ymgynghoreion technegol perthnasol i sicrhau bod yr holl effeithiau posibl yn cael eu nodi ac yn cael eu diddymu, neu eu lleihau i lefel dderbyniol trwy gyfrwng dyluniad y cynllun.



The detailed results of these assessments are presented in the Environmental Statement in the draft planning application available to view on our website.

Cyflwynir canlyniadau manwl yr asesiadau hyn yn y Datganiad Amgylcheddol yn y cais cynllunio drafft sydd ar gael i'w weld ar ein gwefan.

### Ecology

An assessment of the relevant potential effects upon ecology (excluding ornithology) is presented in **Chapter 6 of the Environmental Statement**.

A programme of baseline ecology surveys was undertaken between August 2020 and May 2022, following the most relevant industry guidelines, and incorporating relevant scoping responses.

Apart from losses of conifer plantation, the proposed development will lead to the loss of only small areas of various habitat types, with no significant effects on habitats predicted.

Indeed, it is considered that the measures described in the proposed development's Habitat Management Plan (HMP) will lead to an overall biodiversity net benefit, through the restoration of broadleaved woodland, the expansion of grassland areas, the removal of invasive species, etc.

Control shall be put in place during construction through creation of a site-specific Construction Environment Management Plan (CEMP), Species Protection Plans (SPP) and appointing an Environmental Clerk of Works (ECOW) to monitor adherence to such plans.

### Ecoleg

Cyflwynir asesiad o'r effeithiau posibl perthnasol ar ecoleg (ac eithrio adareg) ym Mhennod 6 y Datganiad Amgylcheddol.

Cynhaliwyd rhaglen o arolygon ecoleg sylfaenol rhwng Awst 2020 a Mai 2022, gan ddilyn canllawiau mwyaf perthnasol y diwydiant, ac ymgorffori ymatebion cwmpasu perthnasol.

Yn ogystal â cholli planhigfeydd conwydd, bydd y datblygiad arfaethedig yn arwain at gollu mannau bach yn unig ble ceir gwahanol fathau o gynefinoedd, ac ni ragwelir unrhyw effeithiau sylweddol ar gynefinoedd.

Yn wir, ystyrir y bydd y mesurau a ddisgrifir yng Nghynllun Rheoli Cynefinoedd (HMP) y datblygiad arfaethedig yn arwain at fudd cyffredinol o ran bioamrywiaeth, trwy adfer coetir llydanddail, ehangu llecynnau glaswelltir, cael gwared ar rywogaethau ymledol, ac ati.

Bydd dulliau rheoli yn cael eu gweithredu yn ystod y gwaith adeiladu trwy greu Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu (CEMP) safle-benodol a Chynlluniau Gwarchod Rhywogaethau (SPP), a phenodir Clerc Gwaith Amgylcheddol (ECOW) i fonitro ymlyniad at gynlluniau o'r fath.

### Ornithology

An assessment of the relevant potential effects upon ornithology are presented in **Chapter 7 of the Environmental Statement**.

A programme of baseline ornithology survey was undertaken between October 2019 and August 2021, following the most relevant industry guidelines and incorporating relevant scoping responses.

Vantage point surveys recorded flights from a total of 15 target species. Many of these were recorded in only very small numbers. Following Collision Risk Modelling (CRM), collision risk is predicted to have no significant effect on the population of any bird species.

The breeding bird surveys recorded a typical community of mostly woodland and scrub dwelling species. Embedded mitigation measures that shall be incorporated into the construction of the proposed development shall minimise the impacts on breeding birds. The potential disturbance and displacement effects caused by the proposed development are predicted to have no significant effect on the population of any bird species.

A Species Protection Plan (SPP) shall be included as part of the Construction Environmental Management Plan (CEMP). In addition, the measures described in the proposed development's HMP.

### Adareg

Cyflwynir asesiad o'r effeithiau posibl perthnasol ar adareg ym Mhennod 7 y Datganiad Amgylcheddol.

Cynhaliwyd rhaglen arolyg adareg sylfaenol rhwng Hydref 2019 ac Awst 2021, gan ddilyn canllawiau mwyaf perthnasol y diwydiant a gan ymgorffori ymatebion cwmpasu perthnasol.

Cofnododd arolygon a wnaed o olygfannau hediadau gan gyfanswm o 15 o rywogaethau targed. Yn achos llawer o'r rhywogaethau hyn, cofnodwyd niferoedd bychan iawn yn unig. Yn dilyn Modelu Risg Gwrthdrawiadau (CRM), ni ragwelir y bydd risg o wrthdrawiadau yn cael unrhyw effaith arwyddocaol ar boblogaeth unrhyw rywogaeth o adar.

Cofnododd yr arolygon o adar magu gymuned nodweddiadol o rywogaethau sy'n byw mewn coetiroedd a phrysgwydd yn bennaf. Bydd mesurau lliniaru sefydledig a fydd yn cael eu hymgorffori yn y gwaith o adeiladu'r datblygiad arfaethedig yn lleihau'r effeithiau ar adar sy'n magu. Ni ragwelir y bydd yr aflonyddu a'r dadleoli posibl a achosir gan y datblygiad arfaethedig yn cael unrhyw effaith arwyddocaol ar boblogaeth unrhyw rywogaeth o adar.

Bydd Cynllun Gwarchod Rhywogaethau (SPP) yn cael ei gynnwys fel rhan o'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP). Yn ogystal, y mesurau a ddisgrifir yn HMP y datblygiad arfaethedig.



Image of wind turbines for indicative purposes only

### Landscape and Visual Impact

An assessment of the relevant potential effects upon seascape, landscape and visual amenity (SLVIA) are presented in **Chapter 8 of the Environmental Statement**.

The SLVIA covers a 45km study area, and included a desk study, site visits, Zone of Theoretical Visibility (ZTV) analysis, viewpoint photographs, wirelines and photomontages to illustrate the proposed development from the viewpoints included. Relevant guidance has been followed.

'Significant' individual and cumulative effects are identified on a number of local landscape character areas (LCAs), including the host LCAs for the proposed development.

'Significant' effects are predicted from a number of local designations, as well as from limited sections of St Illtyd's Walk and Ogwr Ridgeway Walk.

Significant individual and cumulative visual effects are identified from 17 of the total 37 representative viewpoints. Of these, 10 are located within approximately 3km of the proposed development. We have sought to minimise visual effects wherever possible through scheme design, however, at such close distance, effects of this nature are to be anticipated for a development of this type.

### Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith ar Olygfeydd

Cyflwynir asesiad o'r effeithiau posibl perthnasol ar forwedd, tirwedd ac amwynder gweledol (SLVIA) ym Mhennod 8 y Datganiad Amgylcheddol.

Mae'r SLVIA yn cwmpasu ardal astudio 45km, ac roedd yn cynnwys astudiaeth bwrdd gwaith, ymweliadau â'r safle, dadansoddiad Parth Cweledd Damcaniaethol (ZTV), ffotograffau a dynnwyd o olygfannau, llinellau gwifren a ffotogyfosiadau i ddangos y datblygiad arfaethedig o'r golygfannau a gynhwyswyd. Mae canllawiau perthnasol wedi'u dilyn.

Mae effeithiau unigol a chronnol sylweddol wedi'u nodi ar nifer o ardaloedd cymeriad tirwedd lleol (ACT), gan gynnwys yr ACT ble lleolir y datblygiad arfaethedig.

Mae effeithiau gweledol unigol a chronnol sylweddol wedi'u nodi o 17 o blith cyfanswm o 37 o olygfannau cynrychioliadol. O'r rhain, mae 10 wedi'u lleoli o fewn tua 3km i'r datblygiad arfaethedig. Ar bellter mor agos, gellir rhagweld effeithiau o'r arwyddocâd hwn yn achos datblygiad o'r math hwn.

Rhagwelir effeithiau sylweddol o nifer o ddynodiadau lleol, yn ogystal ag o'rannau cyfyngedig o Lwybr Sant Illtyd a Lwybr Cerdded Cefnffordd Ogwr.



To get in touch or find out more:

[info@ybryn-windfarm.cymru](mailto:info@ybryn-windfarm.cymru)

0800 699 0081 (Freephone)

[www.ybryn-windfarm.cymru](http://www.ybryn-windfarm.cymru)

[@ybrynwindfarm](https://www.instagram.com/ybrynwindfarm)